**Jane Hutt AC / AM**
**Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth**
**Minister for Finance and Government Business**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-577
Ein cyf/Our ref JH/05082/14

William Powell AM
Chair, Petitions Committee
Ty Hywel
Cardiff Bay
CF99 1NA

6 Tachwedd 2014

Annwyl William,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Hydref ynghylch cynnig ar gyfer cyllid yr UE sydd wedi dod i law eich Pwyllgor gan Mr Aled Davies. Mae hyn yn dilyn deiseb Mr Davies, a ddaeth i'ch llaw ym mis Awst, yn gofyn i Lywodraeth Cymru adfer y cyllid ar gyfer y Fenter Trawsnewid i Gyflogaeth AAA Rhanbarthol (prosiect Cyfleoedd Gwirioneddol) a gafodd gymorth drwy raglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd 2007-2013.

Er y bydd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) yn gwneud galwad agored ar gyfer gynigion am brosiectau newydd cyn gynted ag y bydd y Comisiwn Ewropeaidd yn cytuno ar raglenni 2014-2020, bydd yn ceisio rhoi cymorth i brosiectau strategol sy'n gallu cyflwyno dull cydgysylltiedig i helpu unigolion ar lefel ranbarthol neu ar lefel Cymru gyfan.

Mae WEFO yn cydnabod llwyddiannau'r prosiect AAA Rhanbarthol ac mae'n awyddus i weld hyn yn parhau. Efallai y bydd gan Mr Davies ddiddordeb gwybod, fel rhan o'r gwaith paratoi sy'n cael ei wneud, bod WEFO wrthi'n trafod â Chyngor Caerffili, a arweiniodd y prosiect Cyfleoedd Gwirioneddol, i ddatblygu prosiect newydd a fydd yn helpu pobl ifanc ag anawsterau dysgu, gan gynnwys pobl ifanc yn Sir Gaerfyrddin. Bydd fy swyddogion yn parhau i weithio gyda'r Cyngor i helpu i ddatblygu ei gynnig cyn gynted â phosibl.

Pe bai Mr Davies yn dymuno ystyried cysoni ei gynnig gyda chynnig Cyngor Caerffili, rwy'n awgrymu ei fod yn cysylltu â'r Cyngor yn uniongyrchol: tel: 01443 815588 / 01495 226622 or email: info@caerphilly.gov.uk

Fodd bynnag, pe bai'n dymuno gwneud cais annibynnol am gyllid yr UE, dylai gysylltu â WEFO yn y lle cyntaf i gael gwybodaeth am gymhwysedd a sut i wneud cais: ffôn: 01845 010

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Jane.Hutt@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

3355, neu e-bost:: Enquiries-WEFO@Wales.GSI.Gov.UK

Yn gywir,
Jane

**Jane Hutt AC / AM**
Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth
Minister for Finance and Government Business